VICTIM SUPPORT

# Pecyn Ymgeisydd ar gyfer Ymddiriedolwr Risg a Masnach

# Croeso

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Chymorth i Ddioddefwyr fel Ymddiriedolwr ac aelod o'r Pwyllgor Risg a Dibenion Cyffredinol. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n dysgu ychydig yn fwy amdanom drwy'r pecyn hwn a thrwy bori ar ein gwefan. Byddwn i wrth fy modd pe bai hyn yn arwain i gais gennych.

Rydym yn falch o fod yr Elusen flaenllaw i ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n cefnogi pobl mae troseddu a digwyddiadau trawmatig wedi effeithio arnynt. Rydym yn darparu cymorth personol i helpu pobl i ymdopi yn dilyn trosedd a theimlo'n fwy diogel drwy gyfuniad o wasanaethau arbenigol pwrpasol yn ogystal â chymorth ar-lein. Rydym hefyd yn hysbysu dioddefwyr am eu hawliau gan sicrhau y gallant leisio eu barn drwy gydol eu cymorth a'r tu hwnt iddo. Rydym yn defnyddio tystiolaeth o'n profiad ni o sut mae troseddu yn effeithio ar ddioddefwyr i ddylanwadu ar randdeiliaid a llunwyr polisi i achosi newid cadarnhaol. Rydym yn sefydliad sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddioddefwyr - mae dioddefwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn Elusen sylweddol a phwysig. Y llynedd, cynigon ni wybodaeth a chymorth i fwy na 655,000 o bobl gyda mwy na 32,000 o sgyrsiau byw a mwy na 19,000 o alwadau i'n Llinell Gymorth 24 awr; derbyniodd mwy na 109,000 o bobl gwasanaethau arbenigol gan ein gweithwyr cymorth medrus ac ymroddedig, ein cynghorwyr trais domestig annibynnol a thrais rhywiol annibynnol a'n gwirfoddolwyr ym mhob rhan o Gymru a Lloegr. Rydym yn sefydliad cwbl annibynnol sy'n cynnig gwasanaethau drwy staff a gwirfoddolwyr lleol sy'n byw yng nghanol y cymunedau lle maent yn byw ac yn gweithio, yn ogystal ag yn genedlaethol drwy wasanaethau fel y Gwasanaeth Dynleiddiad Cenedlaethol, ein Llinell Gymorth 24 awr, ein gwasanaeth sgwrsio byw a'n llwyfan hunan-help digigol, My Support Space.

Ymunais i fel Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymorth i Ddioddefwyr ym mis Ebrill eleni ac rwyf yn llawn cyffro am ddyfodol ein helusen. Rydym yn ehangu'n gyflym mewn amseroedd heriol ac mae'n fraint i ni wasanaethau dioddefwyr troseddu.

Byddech chi'n ymuno â bwrdd pwrpasol sy'n ymroddedig i gefnogi tîm gweithredol hynod ddawnus a staff rheng flaen gwych i greu dyfodol lle caiff hawliau dioddefwyr eu parchu, lle caiff eu lleisiau eu clywed a lle maent yn teimlo bod cymorth cadarn iddynt. Byddech chi hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Risg newydd ei greu er mwyn cynyddu ffocws a chymorth mewn gwasanaethau i ddioddefwyr i ymateb i'r heriau o weithredu yn yr amgylchedd presennol.

**Yvonne Thomas**
**Cadeirydd**

# Amdanom ni

Gall cael profiad o droseddu eich llorio. Yn naturiol, gallech chi deimlo nad ydych chi'n ddiogel. Efallai na fyddwch chi'n gwybod at bwy y gallwch chi droi. Efallai y byddwch chi hefyd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â thasgau sy'n gysylltiedig â'ch profiad.

Dyma pham mae Cymorth i Ddioddefwyr yn gwneud gwahaniaeth pwysig i fywydau'r bobl rydym yn eu cefnogi. Rydym yma i helpu pobl mae troseddu yn effeithio arnynt. Nid yn unig y rhai hynny sy'n ei brofi'n bersonol, ond eu ffrindiau a'u teulu ac unrhyw un arall a allai fod yn rhan ohono.

Rydym yn cynnig cymorth annibynnol, cyfrinachol ac am ddim i bobl mae troseddu neu ddigwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt, gan eu helpu i symud ymlaen gyda'u bywydau. Rydym hefyd yn gweithio i ddeall y problemau mae dioddefwyr a thystion yn eu hwynebu gan geisio ysgogi newid cadarnhaol.

Ein **pwrpas** ni yw cefnogi dioddefwyr i symud ymlaen ac ysgogi newid drwy eu lleisiau nhw.

Ein **gweledigaeth** ni yw dyfodol lle caiff hawliau dioddefwyr eu parchu, lle caiff eu lleisiau eu clywed, a lle maent yn teimlo bod cymorth cadarn iddynt.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i wrando, cynnig adborth a chynnig gwybodaeth. Gallant helpu pobl mae troseddu yn effeithio arnynt i wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd iddynt ac archwilio eu hopsiynau i'w helpu i deimlo mewn rheolaeth eto. Rydym yn cynnig lle diogel a niwtral i rannu ofnau, pryderon ac emosiynau.

Rydym yn **lleol**; mae ein staff a'n gwirfoddolwyr lleol yn dod o'r cymunedau lle maent yn byw ac yn gweithio.

Rydym yn **genedlaethol**; rydym yn cynnig gwasanaethau i bobl ym mhob rhan o Gymru a Lloegr.

Rydym yn **annibynnol** ar yr heddlu, y llywodraeth, awdurdodau lleol, gwasanaethau mewnfudo a'r system cyfiawnder troseddol.

Rydym yn **gynhwysol** ac yn gwneud ymdrech rhagweithiol i ddiwallu anghenion pobl wahanol sy'n cymryd camau bwriadol i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu.

**Rydym yn gwneud gwahaniaeth** ac yn sicrhau ansawdd ein holl wasanaethau drwy ein hymagwedd o welliant parhaus.


I gyflawni ein cenhadaeth a'n diben, byddwn yn:

- Galluogi pobl i deimlo'n fwy diogel a bod yn fwy gwybodus am strategaethau i leihau risg.
- Grymuso pobl i gyrchu eu hawliau a'r hyn maent yn gymwys iddo.
- Gwrando gyda thrugaredd, cydnabod profiadau pobl a helpu pobl i symud ymlaen.
- Cefnogi pobl i leisio eu barn ac ymgyrchu dros welliannau i hawliau dioddefwyr

# Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n ffordd o weithio, o gyflwyno gwasanaethau a gweithio gyda'n gilydd a'n partneriaid.

Yn bwysicach byth, maent yn dangos "**MAE HYN YN BWYSIG I MI**":




**Uniondeb**
Rydym yn gwerthfawrogi ein hannibyniaeth ac yn gweithredu gydag uniondeb ym mhopeth a wnawn. Mae ein gweithredoedd ni'n seiliedig ar yr hyn sydd orau i ddioddefwyr ac wedi'u llywio gan eu lleisiau nhw.

**Trugarog**
Rydym yn gweithredu fel un tîm ac rydym yn garedig ac yn drugarog i'r bobl rydym yn eu cefnogi ac i'n gilydd.

**Hygyrch**
Rydym yn agor drysau i bobl mae troseddu yn effeithio arnynt, p'un a ydynt wedi adrodd amdano ai peidio. Rydym yn ymdrechu i gynnig mynediad cyfartal i gyfleoedd ac adnoddau i ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'n cyflogeion.

**Penderfynol**
Rydym yn ddewr ac yn ddigyfaddawd yn ein dyhead i ymgyrchu dros ddioddefwyr a thystion. Rydym yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni'r canlyniad gorau i ddioddefwyr.

**Grymuso**
Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar alluogi dioddefwyr troseddu deimlo'n fwy hyderus ac a rheolaeth well dros eu bywydau.

# Ein Strategaeth ar gyfer 2024 – 2029

Y llynedd, dathlon ni ein hanner cant o flynyddoedd yn cefnogi dioddefwyr troseddu. Rydym wedi newid llawer yn y cyfnod hwnnw, ond mae ein pwrpas wedi aros yn gyson. Rydym yn fwy penderfynol na byth i gefnogi dioddefwyr a'u grymuso er mwyn iddynt ailadeiladu eu bywydau yn dilyn troseddu, a siarad o blaid am newid.

Bellach rydym yn ail flwyddyn ein strategaeth pum mlynedd o hyd, sef ***Cefnogi dioddefwyr, creu newid*** Yn dilyn ymlaen o'n strategaeth ddiwethaf, a ddaeth â chymorth parhaus i bobl mae troseddu neu ddigwyddiad trawmatig yn effeithio arnynt a diogelwch i'r sefydliad, rydym am barhau gyda'r gwaith hollbwysig hwnnw a hefyd defnyddio ein gwaith i ysgogi newidiadau i ddioddefwyr ledled y wlad.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, pennon ni chwe blaenoriaeth strategol i lywio ein gwaith:

**Defnyddio ein llais a'n dylanwad**
Bydd yn llais cydnabyddedig, dibynadwy a blaenllaw yn genedlaethol i ddioddefwyr. Byddwn yn dylanwadu ar y diwygio gofynnol ar lefel genedlaethol a lleol.

**Defnyddio ein mewnwelediad**
Byddwn yn gwneud y mwyaf wrth roi gwersi a ddysgir a mewnwelediad o'n gwasanaethau ar waith er mwyn cynnig y gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon, a disgrifio'r gwasanaethau a llwybrau gorau i ddioddefwyr.

**Gwella ein cryfderau**
Byddwn yr arweinwyr uchelgeisiol yn ein hardaloedd cryf er mwyn sicrhau y gall y nifer fwyaf o ddioddefwyr gyrchu'r gwasanaethau mae eu hangen arnynt i symud ymlaen â'u bywydau.

**Cefnogi ein pobl a'n diwylliant**
Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni i ddioddefwyr ac yn uno at y diben hwnnw, gan gael ein cydnabod fel cyflogwr a chyfle gwirfoddoli o ddewis. Rydym yn sefydliad lle mae dysgu a gwelliant wrth wraidd sut mae pobl yn gweithio ac yn rhyngweithio.

**Cyflwyno ansawdd ac arloesedd**
Byddwn yn gwreiddio diwylliant o ansawdd ac arloesedd, gan gyflwyno gwasanaethau dioddefwyr o safon.

**Cyrraedd dioddefwyr**
Byddwn yn sefydliad a gynhelir yn dda, sy'n sefydlog yn ariannol sy'n ymateb yn effeithiol i'r angen am wasanaethau i ddioddefwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn y cyflawni yn unol â'r chwe blaenoriaeth hyn, **dilynwch y ddolen hon**.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Rôl** Ymddiriedolwr

## Pwrpas y Rôl

Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn sicrhau bod anghenion dioddefwyr, tystion a theuluoedd mae digwyddiadau trychinebus a throseddu yn effeithio arnynt bob amser yn ganolog i benderfyniadau a wneir gan wasanaethau i ddioddefwyr. Byddwch yn helpu i lywio ein cyfeiriad strategol, ac yn cefnogi gweithgareddau'r elusen sy'n wynebu tuag allan fel llysgennad.

O fewn eich rhinwedd fel Aelod o'r Pwyllgor Risg, byddwch yn aelod gweithgar ac ymrwymedig o'r Pwyllgor, gyda'r nod o ddod yn Gadeirydd iddo o fewn eich blwyddyn gyntaf.

Gan ddibynnu ar brofiad yr ymgeisydd llwyddiannus, efallai bydd hefyd ofyn iddo ystyried ymuno â'n Pwyllgor Cyllid i ddarparu cysylltiad hanfodol rhwng y ddau Bwyllgor.

## Prif gyfrifoldebau'r holl Ymddiriedolwyr:

- Bod yn gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am reolaeth a gweinyddiaeth yr elusen.
- Gweithredu er budd gorau'r elusen, rheoli adnoddau'r elusen yn gyfrifol a gweithredu gyda gofal a medr rhesymol.
- Bod â dyletswydd gofal a challineb tuag at yr elusen.
- Penodi Prif Swyddog yr elusen, gan sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol priodol ar waith ar gyfer yr holl staff.
- Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ac er budd gorau'r elusen a'i buddiolwyr. Bydd Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau ac yn rheoli unrhyw wrthdaro a allai godi'n briodol.
- Adolygu gwaith yr elusen drwy fonitro ei pherfformiad yn unol ag amcanion a dangosyddion y cytunwyd arnynt.
- Hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.
- Datblygu eich dealltwriaeth o'r elusen, a materion dioddefwyr a thystion, yn barhaus.

## Yn eich rôl ar ein Pwyllgor Risg:

- Mynychu cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Risg.
- Ar y cyd ag aelodau o'r pwyllgor, byddwch yn cytuno ar gynlluniau gwaith blynyddol (fel a bennir yng nghylch gorchwyl y pwyllgor); nodi ac asesu risgiau posib; cynnig goruchwyliaeth o ddatblygiad a gweithrediad risg
- rheoli ymagweddau; a chefnogi asesiad y bwrdd o barodrwydd i ymgymryd â risg

Am ganllawiau pellach am gyfrifoldebau Ymddiriedolwr, **defnyddiwch y ddolen hon** i ddarllen canllawiau defnyddiol y Comisiwn Elusennau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein Bwrdd, **ewch i'n gwefan**.

# Manyleb Person

## Rhan Un

## Gwybodaeth a phrofiad

- Mae arbenigedd, a hanes gyda thystiolaeth glir, mewn rheoli risg yn hanfodol er mwyn cael eich ystyried am y penodiad hwn.
  - Yn ddelfrydol, bydd hyn yn dod o gefndir mewn amgylchedd masnachol, er y byddai cyfuniad o brofiad o reoli risg mewn sectorau preifat ac elusennol yn fuddiol.
  - Efallai y byddwch chin gyfrifydd cymwys, ond nid yw hyn yn hanfodol.
- Hanes profedig o arweinyddiaeth uwch, strategol, naill ai fel Ymddiriedolwr neu uwch swyddog.
- Dealltwriaeth o'r amgylchedd mae gwasanaethau i ddioddefwyr yn gweithredu ynddo.
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol bod yn ymddiriedolwr.

## Rhan Dau

## Sgiliau a galluoedd.

- Gallu dadansoddi a dehongli materion cymhleth, datrys problemau, a herio'n adeiladol pan fydd angen.
- Gallu meddwl yn greadigol, a helpu gwasanaethau i ddioddefwyr ddatblygu meysydd newydd ac arloesol o waith.
- Gallu i weithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid uwch a'u rheoli, yn fewnol ac yn allanol. Sgiliau gweithio mewn tîm a chyfathrebu rhagorol.

## Rhan Tri

## Arddull arwain ac ymddygiad

- Ymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo pwrpas, gweledigaeth a chenhadaeth gwasanaethau i ddioddefwyr, a'n gwerthoedd, ac i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ymrwymiad i wneud cyfraniad rhagweithiol fel aelod o'r bwrdd, gan ymrwymo'r amser a'r gwaith meddwl sy'n ofynnol.
- Barn annibynnol gadarn.
- Deallusrwydd emosiynol, a ffordd o weithio ego isel.

# Telerau penodiad

## Cydnabyddiaeth
Cynigir y rôl ar sail wirfoddol. Caiff treuliau rhesymol a ysgwyddir wrth wneud y rôl eu had-dalu gan y sefydliad.

## Lleoliad
Yn Llundain yn bennaf. Rydym yn elusen genedlaethol, a gellir cynnal cyfarfodydd Bwrdd mewn lleoliadau eraill ledled Cymru a Lloegr yn achlysurol.

## Ymrwymiad Amser
Disgwylir i'r ymrwymiad amser fod tuag un diwrnod y mis, gan gynnwys:

- Pedwar cyfarfod Bwrdd wyneb yn wyneb/ar-lein a gynhelir mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru a Lloegr.
- Pedwar cyfarfod y Pwyllgor Risg dwy awr o hyd (a gynhelir ar-lein); ac efallai pedwar cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio y flwyddyn.
- Un Diwrnod Strategaeth wyneb yn wyneb.
- Ymweliadau â swyddfeydd neu wasanaethau lleol fel y bo'n briodol.
- Mynd i ddigwyddiadau codi arian neu rwydweithio yn achlysurol

## Cyfnod y Penodiad
Caiff ymddiriedolwyr eu penodi am dymor cychwynnol o dair blynedd Efallai cânt eu hailbenodi am gyfnod pellach o dair blynedd.

## Cymhwysedd
Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatgan eu cymhwysedd i fod yn ymddiriedolwr a chwblhau gwiriad GDG. Bydd hefyd ddisgwyl iddo ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n effeithio ar gyfrifoldebau a thrafodaethau'r bwrdd, ar adeg penodiad a chyn y cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor perthnasol.



# Sut i gyflwyno cais

I gyflwyno cais, ewch i **https://starfishsearch.com/jobs/victim-support-risk-commercial-trustee/** a chliciwch ar y botwm gwneud cais, gyda'r canlynol wedi'i baratoi:

- Eich CV (heb fod yn hwy na thair tudalen).
- Llythyr esboniadol sy'n nodi eich ysgogiad am y rôl ac sy'n disgrifio'r profiad penodol y gallwch ei gynnig i'r penodiad.

Byddem ni hefyd y ddiolchgar pe gallech gwblhau'r ffurflen monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y broses cyflwyno cais ar-lein. Mae'r ffurflen hon at ddibenion monitro'n unig ac ni chaiff ei thrin fel rhan o'ch cais.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Llun 29 Rhagfyr 2025**

## Amserlen recriwtio

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau:** | **Dydd Llun 29 Rhagfyr 2025** |
| **Cyfweliadau cychwynnol:** | wythnos yn dechrau 12 Ionawr 2026 |
| **Cyfweliadau Panel terfynol:** | wythnos yn dechrau 2 Chwefror 2026 |

